

WALTER, ROWLAND ('Ionoron Glan Dwyryd'; 1819 - 1884), chwarelwr a bardd

Enw: Rowland Walter
Ffugenw: Ionoron Glan Dwyryd
Dyddiad geni: 1819
Dyddiad marw: 1884
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: chwarelwr a bardd
Maes gweithgaredd: Diwydiant a Busnes; Barddoniaeth
Awdur: Robert (Bob) Owen

Ganwyd yn Cefnfaes, Congl-y-wal, Blaenau Ffestiniog, o rieni a ddaethai o ardal Margam, Sir Forgannwg.

Dechreuodd anfon englynion i'w cyhoeddi yn *Y Gwladgarwr* pan oedd tua 19 oed. Yn 1852 cyhoeddodd *Lloffyn y Gweithiwr, sef Awdlau a Chaneuon ar wahanol Destynau*. Yr un flwyddyn (neu 1853?) ymfudodd i U.D.A., gan ymsefydlu fel chwarelwr yn Hydeville, Vermont, a pharhau i gyfansoddi englynion a phenillion a'u hanfon i'r *Cenhadwr Americanaidd* a'r *Drych*. Yn 1872 cyhoeddodd *Caniadau Ionoron, yn cynnwys Awdlau, Cywyddau, Englynion, a Phennillion* (Utica). Daeth ei gerdd 'Bedd fy Nghariad' yn bur boblogaidd - gweler hi yn *Blodeugerdd W. J. Gruffydd*, t. 51.

Bu farw Mawrth 1884 yn Fairhaven, Vermont, U.D.A. - 'yn 64 oed' yn ôl *Blackwell*.

Awdur

Robert (Bob) Owen, (1885 - 1962)

Ffynonellau

W. J. Gruffydd, *Y Flodeugerdd Gymraeg* (1931)

Ilythyrau 'Ionoron' ym meddiant Robert Owen

Bob Isherwood, 'The bardic chairs of Ionoron Glan Dwyryd', *Ninnau: Papur Bro Cymry Gogledd America*, January-February 2017 p.9

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q28361498

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government